

HEBOG & NANTLLE

Mae'r mynyddoedd i'r Gorllewin o Feddgelert a Rhyd Ddu, yn ffurfio dwy gefnen amlwg yn amgáu dyffryn prydfferth Cwm Pennant. I'r Gogledd o Ddyffryn Nantlle, fe geir Mynydd Mawr a'i fryniau, ardal sydd yn dangos effaith y diwydiant llechi mewn sawl man. Ar y cyfan, mae'r ardal yn ddistawach na weddill Eryri ond un gyda golygfeydd ardderchog.

Moel Hebog 782m SH 564470

Yr ystyr a gysylltir yn gyffredinol bellach â'r gair moel 'llwm, noeth' yn y dirwedd, yw bryniau crwn, gyda chopaon llyfn a noeth o goed. Yn anffodus, mae hyn yn llawer rhy syml ac yn aml iawn yn hollol anghywir, gan fod llawer mwy o ystyron na hyn yn gysylltiedig â'r gair. Ar wahân i'r diffiniadau '*mynydd crwn llyfn, copa llwm*', mae gan Eiriadur Prifysgol Cymru (GPC) '*ben bryn neu fynydd, copa*' yn ogystal â '*twmpath, pigyn*' gyda chyfeiriad at ffurf gonigol. Felly, os welwyd y term moel mewn enw, rhaid bod yn ofalus i asesu ffurf y nodwedd; oherwydd mewn nifer fawr o achosion yr ystyron sy'n cyfeirio tuag at fryniau gyda chopaon conigol sydd yn gywir. Fel arfer, yr ystyron hyn yw'r rhai a anwybyddir yn gyffredinol ac fe welir y camgymeriadau mewn nifer o erthyglau a llyfrau.

Mae Moel Hebog yn sicr yn fryn sydd yn foel ac mae yn weddol lefn o rai onglau; fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw ei fod yn cyflwyno ffurf gonigol. Felly gallai fod yn ddefnydd sy'n dynodi copa neu domen gonigol. Yr oedd y synnwyr hwn i'w weld mewn geiriadur cynnar, gyda: '*Moel or y Foel doth also signify a heap of corn, butter and of other things of the like sort, when raised up like a pyramid above the brim of the vessel in which it is contained*' 1753 *Antiquae linguae Britannicae*.

Ffurf gyntaf yr enw, a gofnodwyd ym 1269, oedd Morleheadauc; sef camsillafiad y gair moel 'bryn conigol' + ehedog, ehedawg 'adar, hedfan', Cernyweg *edhen* 'aderyn'; yn hytrach na'r gair hebog 'aderyn ysglyfaethus'. Sydd yn awgrymu y dylid cysylltu'r enw gyda synnwyr mwy fel Bryn yr Adar yn hytrach na Bryn yr Hebog. Mae'n debyg bod y dehongliad hebog yn ganlyniad i'r ffurf a amlygwyd fel Moel Haprock ym 1781. Yn anffodus, llygriad yw'r haprock o'r gair hebog 'hebog', a'r fersiwn yma sy'n parhau mewn defnydd heddiw. Mae Hebog yn deillio o'r gair Hen Saesneg *heafoc* 'hawk' a gafodd ei ddrysu â'r ehedog gwreiddiol. Fodd bynnag, yn ei lyfr *Tours of Wales* mae gan Thomas Pennant Moel Hedog, ac felly'n ei gysylltu yn ôl i'r ffurf gynnar. Gallai'r mynydd fod yn gysylltiedig ag adar; p'un a yw'n adar neu'n chwedlonol. Ond, wrth edrych ar y mynydd o'r Gorllewin, mae ffurf y gefnen yn edrych fel aderyn ai adenydd yn ymestyn allan. Moel Hebog 1838 AO.

Wrth dorri mawn ar lethrau'r mynydd yn 1784 fe ddaethpwyd o hyd i darian efydd syfrdanol tua 1m mewn lled; yn cynnwys cylchoedd consentrig ac wedi'i dyddio i ddiwedd Oes yr Efydd.

Craig Cwm Silin 734m SH 526503

Enwid y graig a hefyd y mynydd ar ôl y llyn, y tebygrwydd yw mai benthyciad yw'r gair sil 'pysgod ieuanc' o'r Wyddeleg *sil* 'hâd'; Hen Gymraeg *hil* 'magu'; neu air Gwyddeleg arall, *suil* 'llygad' sydd. Yn rhoi 'llyn y magu'; neu, 'llyn y tarddiad'. Er hyn, i'r mwyafrif, enw sy'n gysylltiedig ag enw personol fel Silin, Silyn; o'r enw personol Hen Gymraeg Sulgen sydd. Ar fap yr AO cyntaf yn 1838 fe welir y ffurf Craig-cwm-silyn.

Trum y Ddysgl 710m SH 545517

Wedi'i enwi oherwydd ffurf powlen y cwm; y dysgl 'llestr crwn neu hirgrwn, bowlen' yw'r cwm rhewlifol. Ystyr y gair drum, trum yw 'bryncyn, bryn neu gefnen, braich yn ymestyn allan o'r mynydd'; o'r Hen Gymraeg *drum* sy'n gysylltiedig â Chernyweg *trum, drum*; Gwyddeleg *druimm* 'cefnen, llechwedd, mynydd'. Trum y Ddesgil 1781 Myrddin Fardd, Trum-y-ddysgl 1838 AO.

Garnedd Goch 700m SH 511495

Mae'r gair *carnedd*, sef *carn* 'gwyddfa, twmwlws neu domen' + *terfyniad enwol -edd*; yn gyffredin mewn enwau mynyddoedd. Heblaw *carnedd*, yr Oes yr Efydd, fe all y term gyfeirio at gopa creigiog, bryn creigiog, neu hyd yn oed mynydd gyda ffurf *garneddog*. Mae yn gywir gyda'r fannod o'i flaen ar fapiau AO 1838, fel Y Garnedd goch. Ond yn anghywir heb y fannod fel Garnedd Goch ar y Cyfres 6" 1830-80 AO, ac mae'r ffurf anghywir *Garnedd Goch* dal ar fapiau'r AO.

Mynydd Mawr 698m SH 540547

Mae'r mynydd yn un amlwg iawn, ac oherwydd ei agosrwydd i Gaernarfon ac yn edrych yn fwy. Mae'r gair mynydd yn gysylltiedig â'r Gernyweg *meneth*; Hen Lydaweg *mened*; Hen Gymraeg *minid* o'r Frythoneg **monedo-*. I ddechrau, term yn golygu 'bryn uchel, crib amlwg' oedd, yn ddiweddarach, estynnodd y gair i ddynodi 'darnau o ucheldir, rhostir'. Yn hwyrach eto defnyddir y term ar gyfer 'porfa agored', ond nid o reidrwydd ar dir uchel. Ar y copa ceir *carnedd* o Oes yr Efydd 22m o led, a gellir ei weld o gryn bellter. Mynydd Mawr Thomas Pennant 1810, Mynydd mawr 1838 AO.

Mynydd Drws y Coed 697m SH 549518

Drws y Coed yw enw'r fferm a'r bwlch. Drws 'bwlch neu adwy drwy fynyddoedd' + coed 'coedwig'; Hen Wyddeleg *dorus*, Brythoneg **drust*; y ddau air wedi datblygu o'r Gelteg **duorestu* 'bwlch neu adwy yn y mynyddoedd'. Mae'r mynydd yn yr enw yn cyfeirio at borfa uwchdir neu gynefin sy'n perthyn i'r fferm. Nid oes angen y cysylltnodion fel a welir ar fapiau'r AO. Mae'n debygol mai hen enw'r mynydd oedd Y Garn, yn ymwneud â siâp y mynydd a phresenoldeb y carn ar ei gopa. Mae'r enw Y Garn i'w weld ar fapiau AO 6" 1840-80 yn amlwg iawn.

Y Garn 663m SH 551526

Rhaid dewis pa ystyr y gair *carn* 'carnedd, gwyddfa, twmwlws neu domen' sydd, yn gyfystyr a'r Llydaweg *karn*; Cernyweg *carn*; Gwyddeleg *carn* 'twr o gerrig'. Heblaw mynydd gyda charn ar ei gopa, yn aml mae'r term yn disgrifio bryn sydd yn atgoffaol o ffurf *carn*. Mae yna ddau garn Oes Efydd ar gael.

Moel yr Ogof 655m SH 556479

Moel 'mynydd conigol' + ogof 'agen, ceudod', cymharer â Chernyweg *gogo*, *fogo*, *ogo* 'ogof'; gwelir yr enw sydd ar y map AO 1838. Un hen enw ar yr agen oedd Moel Ogof Elen; sef Elen (Helen) gwraig Macsen Wledig. Os nid Ogof Owain Glyndwr sydd, tybed os ogof arall ar y graig o'r enw Y Diffwys ydyw, ar sbardun gogleddol Moel Hebog.

Mynydd Tal y Mignedd 655m SH 535514

Yr oedd Dyffryn Nantlle yn llawer gwlypach ar un adeg, gyda mwy nac un llyn a chors hir uwch y llynnoedd. Ar ffin y corstir oedd y fferm o'r enw Tâl y mignedd, sef tâl 'pen pellaf, ymyl' y mignedd 'corstir, gwern'; mign yw'r unigol. Felly porfa fynydd y fferm yw enw'r mynydd, nid oes angen y cysylltnodion yn yr enw. Tal Mignedd 1781 Thomas Pennant.

Moel Lefn 638m SH 553485

Ceir yma moel 'bryn crwn' + lefn 'esmwyth'; treigliad y ffurf fenywaidd y gair llyfn 'gwastad, heb rychau'. Wrth edrych ar y mynydd o'r De ag o Gwm Pennant gwelir llethrau a chop a esmwyth, ond mae'r llethrau Gogleddol yn fras ac yn greigiog. Ar fapiau 6" cynnar yr AO yn 1840-80 fe welir yr enw fel Moel Lefain. A'i chamgymeriad sydd, neu oes posib cysylltu'r enw â'r term llefain fel yn garreg lefain 'carreg ateb' yn wreiddiol? Moel Lefn 1838 AO.

Mynydd Craig Goch 609m SH 497486

Fe all y graig fod yn goch oherwydd mwynau, enwedig haearn. Fodd bynnag, mae'r llethrau deheuol a gorllewinol y bryn wedi'u gorchuddio â rhedyn, grug a glaswelltau mynydd melyn; yn eu

lliwiau gaeafol, fe ellir ystyried unrhyw un ohonynt yn goch. Ar y llethrau deheuol, fe welir cymhlethdod gwasgaredig o adfeilion a chaeau, yn dangos defnydd dynol ar un adeg. Craig goch 1838 AO, Mynydd Craig-coch 1887 AO.

Y Foel Rudd 573m SH 549544

Ffurf treiglledig y gair rhudd 'coch, cochlwyd' yw rudd, mae'r gair yn gysylltiedig â Hen Gernyweg *rwd*, Gwyddeleg Canol *rúad*; sydd o'r Gelteg **roudos* ac yn y pen draw yr Indo Ewropeaidd **reudh-* 'coch'. Fodd bynnag, ers cyfres 6" 1888-1915 mapiau'r AO, rhoddir yr enw fel rúdd. Nid yw hyn yn bodoli fel gair yn y Gymraeg.

Yn anffodus, er bod rhudd 'coch, cochlwyd' yn debygol, gall llygredd y geiriau Yr Hydd 'y carw' fod yn ddewis arall; gyda rudd/rhudd diweddarach yn cysgodi'r gwir ystyr. Mae'n ddewis anodd a does dim sicrwydd ynglŷn â'r sillafiadau a roddir ar fapiau'r OS yn ateb i'r dewis. Mae ffurfiau cyfatebol croes rhudd/yr hydd wedi'u cofnodi mewn nifer o leoliadau ledled Nghymru. Moel y rhudd 1838 AO, Moel Rhudd 6" 1840-80 OS, Foel Rudd 1888 6" OS, Foel Rúdd mapiau AO cyfoes.

Moel Ddu 553m SH 579443

Moel 'bryn conigol' o rai agweddau gyda llechweddau sydd yn ddu 'du, tywyll' oherwydd lliw'r creigiau a'r ardaloedd o gysgod.

Bryn Bannog 519m SH 576456

Ni ddefnyddiwyd y gair bryn lawer yn Eryri; cymharer gyda'r Gernyweg bren, o'r Frythoneg **brunniā*, sy'n debyg i'r Hen Wyddeleg *bruinne* 'bron'. Mae'r geiriadur yn rhoi bannog 'uchel, aruchel, nodedig'; tra bo'r bryn yn gymharol isel y mae yn weddol amlwg, gyda llethrau serth yn ymestyn i fyny tuag at y brig hir. Cernyweg *ban* 'uchder', Gwyddeleg *benn* 'mynydd, corn, pigyn'. Brynbannog 1641 Papurau Wynn.

Moel Tryfan 427m SH 516563

Wrth edrych ar y bryn o'r Gogledd, mae yn un eithaf llyfn a chrwm; felly mae yn enghraifft ardderchog o ddisgrifiad cyffredin y term moel 'bryn pencrwn' yn hytrach na bryn conigol. Ond beth felly yw'r rhesymeg y ty ol i tryfan 'cefnen bannog' yn y man? Wrth edrych ar y bryn yn fanylach fedrir nodi brig creigiog go hir ar hyd ei gopa. Felly, moel 'bryn crwn' + tryfan 'crib pigfain'. Moel-y-Tryfan 1838 AO.

Castell 388m SH 562495

Mae ystyr castell 'amddiffynfa maen' yn un syml, enwedig ble mae'r creigiau yn atgofio un o furiau maen. Ond ar fap 1838 yr AO Y Graig Ddu yw'r enw; yn wrthgyferbyniol i'r enw Y Graig Wen yn 594507 ar ochr arall y dyffryn.

Mynydd y Cilgwyn 347m SH 498543

Yn ei ddefnydd yn y dirwedd, mae'r gair cil fel arfer yn dynodi 'cornel, encilfan, gesail'; felly cil 'gesail' + gwyn 'gwyn' i ddynodi ardal rewlyd neu hyd yn oed safle yn llygad yr haul. Cernyweg *kyl* 'gesail, ty gefn', Hen Wyddeleg *cail* 'cornel'. Pen y Cilgwyn yw'r term arall ar fapiau'r AO. Cilgwyn Common 1813 Llawysgrifau Porth yr Aur, Mynydd y cilgwyn 1838 AO.

Moel Smytho 343m SH 521577

Yn lleol, yr enw a ddefnyddir yw naill ai Smytho neu Smythaw; enw personol ydyw, neu enw sy'n tarddu o'r Saesneg Canol *smothe* 'llyfn' sydd. Fodd bynnag, ychydig i'r Gogledd mae cefnen gyda'r enw Braich Moel 'smythaw ar fap AO 1838. Os (e)smwythau 'i leddfu, llacio, gwneud yn hawdd' yw'r term a ddefnyddir, a'i chyfeiriad at lwybr haws i fyny at yr uwchdir. Moel smythaw 1838 AO.

Clogwyn y Garreg 336m SH 557538

Mae'r term carreg 'craig' yn gymharol i'r Gernyweg *carrag* 'craig'; Llydaweg *karrek*::; tra bo'r gair Gwyddelig *carraig* 'carreg' wedi ei fenthwyg o'r Gymraeg. Gair cyffredin iawn yn y dirwedd ac mae'r bryn wedi'i orchuddio â chreigiau, â llawer o glogwyni bach yn ogystal. Er ei fod braidd yn isel, mae'n dal i fod yn eithaf amlwg, enwedig wrth edrych o gyfeiriad Ddyffryn Nantlle. Dangosir yr enw Carreg Lefain 'carreg ateb' ar y graig mewn hen fap Stad Vaynol o 1777.

Bryn Bugeiliaid 306m SH 483497

Enw digon syml, sef lluosog y gair bugail, yn gysylltiedig a Chernyweg *bugel*; o'r Cymraeg Canol *bugeil*. Mae'r sillafiad bugelydd yng nghyfres gyntaf mapiau'r AO yn ffurf braidd yn hen o'r sillafiad. Bryniau-bugelydd 1838 OS.

Bryn Ffynnon 303m SH 477493

Mae'r ffynnon 'pydew' wedi ei gofnodi ar y mapiau.

Moel yr Erw 290m SH 561449

Dilynir yr elfen foel gan gyfeiriad at - yr + erw 'daliad tir, ardal', cyfeiriad a godwyd o enw'r fferm Erw Suran. Mae'n debyg mai defnydd hwyr o'r gair moel sydd, i ddisgrifio 'bryn' neu 'borfa fynydd'. Foel yr Erw yw'r enw ar fapiau'r AO 6" ers 1888.

Moelfryn 277m SH 569512

Mae'r bryn bach hwn bellach wedi'i orchuddio â choedwigaeth ac mae'n edrych yn gywir fel moel 'bryn noeth, crwn'; er yn union ar y copa mae yna gnwc bychan sef copa bach creigiog, felly efallai mai moel 'pig, copa' sydd. Fodd bynnag, gerllaw, ar y map AO presennol mae'r enw Y Gader, enw a oedd yn llawer agosach at y copa ar fapiau cynnar yr AO. Ymhellach, Parc y Gader oedd enw'r llechwedd islaw (Parcygadair heddiw) ac mae'n debyg mai'r enw Y Gader oedd enw'r bryn yn wreiddiol.

Gall hyn olygu bod y copa yn un o'r lleoliadau cader 'cadarnle' gyda waliau cerrig o amgylch y cnwc neu'r brig creigiog. Mae'r waliau cerrig i'w gweld ar yr hen fapiau OS 6" ac mae rhai i'w gweld o hyd ar y mapiau 1:25,000 AO presennol. Mae rhai o'r waliau o amgylch y bryn yn debyg i'r waliau cerrig a welir o gwmpas caeau'r ardal; ond mae waliau eraill wedi'u hadeiladu yn erbyn y bryn creigiog. Mae'n anodd gweld pam y byddai bryncyn creigiog yn cael ei ddefnyddio fel corlan, gyda'r copa creigiog yn defnyddio y rhan fwyaf o'r gofod y tu fewn i'r waliau.

Byddai hwn yn lleoliad da ar gyfer safle amddiffynnol gan y byddai'n rheoli unrhyw symudiad Gogledd-De rhwng Beddgelert a Rhyd Ddu, yn ogystal â'r trac hynafol draw i Gwm Pennant. Fodd bynnag, gan fod yr ardal yn ddwfn yn y goedwig ni ellir bod yn sicr, mae llawer wedi'i newid yn y man gyda choed enfawr wedi'u dadwreiddio ac effeithio'r safle. Mae rhai ardaloedd wedi eu dinistrio'n llwyr. Mae hi'n anodd gwneud penderfyniad cadarn ynglŷn â phresenoldeb rhyw fath o amddiffynfa; neu, oedd yna fuarth neu gorlan o gwmpas y cnwc yn atgoffaol o hen gadarnle? Ni fyddai'n amhosibl derbyn y byddai defnydd amrywiol a newidiol yn bosibl mewn safle tebyg; mater hawdd fyddai trosi buarth neu gorlan i safle amddiffynnol ac vice versa.

Cyfeirwyd at y man sawl gwaith dros y blynyddoedd: 'Linne dan cader erechiugui a quarter of a myle every way' **The Itinerary in Wales 1536-9 J Leland**; 'Llyn Cadair yr Aur Vrychyn, near Quellyn pool, on the road from Caernarvon to Beddgelert' **The Cambrian Register 1818**; hefyd 'Llyn y Gader gynt Cadair-yr-Eurwrychyn' **Y Llenor 1938 WJ Gruffydd**. Fe welir y ffurf Llyn Cadair yr Eurwrychyn yn Archifau Melville Richards.

'Tradition speaks of a fortress which stood on the highest point of the hill, now turned into a plantation, which is on the left-hand side of the road, and a little way from it. This hill is called "Y Gadair", and the lake immediately beyond it has received its name from it — Llyn y Gadair.

Edward Llwyd, the learned antiquary of Oxford, was of opinion that "Caer" was only an abbreviation from "Cadair". If so, and it is likely enough, we have here the Welsh word for fortress in its unabbreviated form. As the old Roman road passed this way, it is quite probable that this fort guarded this portion of it.' **Bedd Gelert - its facts, fairies and folk-lore 1899 DE Jenkins, WB Jones.**

Craig y Gesail 273m SH 545443

Mae'r gair cesail 'gilfach, cornel' yn dynodi'r newidiad mewn ongl y graig sy'n rhoi'r enw i'r bryn.

Y Bengam 267m SH 555444

Mae'r enw pen 'copa' + cam 'crwm' yn ddisgrifiad da ar y gefn wastad grwm.

Moel y Gest 262m SH 544389

Mae'n anodd penderfynu pa ffurf y gair moel sydd, os yw'n weddol gynnar, yna moel 'bryn conig' sydd yn debygol oherwydd ei ffurf; neu, os yn hwyr ei ddefnydd gall yr ystyr moel 'porfa mynydd' ddylanwadu. Y ffurf gynnar yr enw oedd Y Gest; defnyddir y term cest 'bol(mawr)' fel disgrifiad addas ar fryn sy'n chwyddo i fyny o wastadeddau'r morfa. Ceir amddiffynfa cyn-hanesyddol ar y copa. Fe roddwyd un disgrifiad fel: [Kest, the Belly, as y Gest in Merionethshire, Hergest (an legendum Hir-gest), i.e. Long Paunch in Herefordshire.] 1719 Glossarium Antiquarium Britannicum.] Gest 1306/7, Gest 1352 Revue Celtique, Gest 1562 Llawysgrifau Brogyntyn, Gest 1569 Llawysgrifau Tanybwllch, Y Gest c.1600 Llyfr Baglan, Moel-y-gest 1838 AO.

Clogwyn Melyn 235m SH 486537

Erbyn heddiw, mae hi'n anodd penderfynu ar y lliw cywir pan yr ydym yn edrych ar enwau dirweddol gyda lliwiau yn eu henw. Mae lliwiau'n newid gyda'r tymhorau ac y gall liwiau newid ystod y dydd,. Mae newidiadau dynol a ffarmio yn gwneud pethau'n anoddach. Gyda'r term melyn, y gall ei ystyr amrywio o felyn i frown, y clogwyn 'craig, diffwys' yw'r llechwedd greigiog.

Bryn Ystymcegid 190m SH 514419

Enw ar y bryn a godwyd o'r fferm/cartref gwreiddiol, sef cyfuniad o ystum 'tro, troad' + cegid 'cegyr, cegiden, planhigyn gwenwynig' Hemlock: *Conium maculatum*. Ystymkegid 1601 Llawysgrifau Dolfrigi, 1627/8 Llawysgrifau Brogyntyn, Ystumcegid 1765. Ond Cefn y Fan oedd yr enw ar hen fferm Canoloesol yn agos i gopa'r bryn; Kevyn y Fan 1589/90 Llawysgrif Dolfrigi, Cefn y Fan 1838 AO.

Bryn Du 184m SH 592466

Mae'r gair bryn 'mynydd bach' yn enw eithaf cyffredin ar dirwedd, i'w weld yn y Gernyweg pren, Gwyddelig bruinne. Mae'r du yn gyfeiriad at dywyllwch y graig neu ei agwedd. Nid oes angen y to bach ar y llythyren u fel y gwelir ar enw map yr AO presennol.

Bryn Hywel 159m SH 515418

Bryn 'bryncyn' + enw personol Hywel; yr oedd yna gynnig i gysylltu'r bryn gyda'r gair hywel 'gweladwy, gweledig' fel 'marc' morwyr.

Moel Ednyfed 136m SH 503393

Mae'r copa bach amlwg, sydd hefyd gyda'r enw Mynydd Ednyfed, yn awgrymu moel 'copa, bryn conigol' + Ednyfed, enw personol. Yr oedd yr enw yn un cyffredin ar un adeg; roedd y Gymraeg Canol *Iutnimet*, *Idnyuet*, *Edynyuet*, o'r Frythoneg **Jiudonemetos* 'arglwydd' neu 'arglwydd y man cysygreddig'. Mae yna encilfan o gwmpas y copa.

Moel y Gadair 67m SH 522392

I lawer, cadair 'sedd, eisteddfan, gorsedd' sydd yn yr enw, hyd yn oed os nad oes ffurf fel sedd i'w

weld yn y dirwedd. Rhesymeg y ddadl wedyn yw mai gorsedd neu uchelfan ffigurol sydd yn yr enwau ac nid oes angen ffurf fel pant neu ddyffryn i ddynodi'r sedd. Tra bo hyn yn bosibl, yn y GPC mae ystyr y gair cadair wedi eu hehangu i dderbyn 'gwersyll, caer, amddiffynfa' a 'trigfan' fel ystyron. I rai etymolegwyr, y term osodiadol *cader sydd yn yr enwau, gydag ystyron sy'n deillio o'r ffurf Brythoneg osodiadol *cader neu *cater 'amddiffynfa, caer', yn gysylltiedig â Hen Wyddeleg *cathir* 'safle amddiffynnol'. Fel y ysgrifennwyd John Davies yn ei Dictionarium Duplex 1632 '*Cader, Septum, Castrum, locus munitus; ut Cader Idris, Cader Ddinmael'. **Cader** (Castel) diffynfa. A strong or fortified place. Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb, 1804. Thomas Jones.

Mae nifer o fryniau gyda'r term *cader 'safle amddiffynnol' yn ei henwau. Yn yr anhrefn ar ddiwedd y feddiannaeth Rufeinig a hefyd yr Oesoedd Canol cynnar, gallai bryn isel fel hwn fod wedi gweld adeiladwaith o ryw fath o amddiffynfa arno. Amddiffynfa i wrthyrru ysbeilwyr lleol ac eraill a oedd yn hwyllo ar hyd y glannau. Fodd bynnag, nid oes angen darganfod cadarnle yno, mae'r tebygrwydd i safle caerog yn ddigon i'r enw ddatblygu. Yn sicr mae gan y bryn bach hwn gopa sy'n ymdebygu i gadarnle, gyda sgarpiau creigiog a llethrau serth; ond heb ymchwiliad archeolegol mae'n anodd bod yn sicr beth allai fod wedi bod yno.

Mae map AO 1837 yn dangos y fferm gyfagos a enwyd Bron y Gader, fferm arall yn agos ato a nodir fel Ysteddfa h.y. eisteddfa 'sedd, gorsedd'. Yn Archif Mellville Richards mae un yn dod o hyd i Bron y Gader fel cofnodiad yn 1448 ac Eisteddfa yn 1582. Tybed os ôl gysylltiad oedd yr enw Eisteddfa, neu, a yw'r enw yn cyfeirio at yr ystyr gwreiddiol? Mae benderfyniad i'w wneud: a oedd yna *cader 'safle amddiffynnol' cyn-hanesyddol, a oedd yna amddiffynfa ôl-Rufeinig yn hwyrach, oes dehongliad diweddarach oherwydd ffurf y bryn fel safle a oedd yn debyg i gaer wedi digwydd, a fu ôl ddehongliad anghywir yma o enw'r bryn - un a oedd yn gysylltiedig ar ei hyd â chadair 'sedd, gorsedd'?